



Online Procedure Rule Committee

# **Dogfen Ymgysylltu â'r Cyhoedd**

***Fframwaith Cynhwysiant  
a Model Cyn Achos ar gyfer y  
System Cyfiawnder Digidol***

**Gorffennaf 2025**

# Rhagair Cadeirydd y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Ar-lein

## Y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Ar-lein (OPRC) wedi cael ei fandad cyntaf gan y Senedd. Mae wedi cael y pŵer i wneud rheolau ar gyfer achosion eiddo mewn llysoedd a thribiwnlysoedd ac ar gyfer achosion o rwymedïau ariannol teuluol. Gall ddechrau ar y gwaith o ddifri nawr.

Mae'r pwerau a roddwyd i'r OPRC yn ychwanegol at y pwerau gwneud rheolau sydd gan y pwyllgorau rheolau ar hyn o bryd, yn hytrach na'u disodli. Ond dros amser, y bwriad yw y bydd prosesau ar-lein yn cael eu llywodraethu gan reolau a wneir gan yr OPRC.



## Eich help

Mae'r ddogfen hon sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd yn gofyn am eich help. Mae'r OPRC eisiau gwybod a yw'n symud i'r cyfeiriad iawn. Y cyfeiriad hwnnw yw tuag at fframwaith ar gyfer cynhwysiant digidol a chreu model cyn achos sy'n darparu egwyddorion a safonau i ddatrys anghydfodau a rhoi cyngor ar-lein cyn achos.

## System Cyfiawnder Digidol

Yn y ddogfen hon, mae'r OPRC yn egluro ac yn ymgynghori ar y gwaith y mae'n ei wneud a'r canllawiau cyntaf y bydd yn eu rhoi ar gyfer gwasanaethau datrys anghydfodau a chynghori ar-lein cyn achos ac ar gyfer achosion datrys anghydfodau ar-lein mewn llysoedd a thribiwnlysoedd. Gyda'i gilydd, ystyrir y gwasanaethau cyn achos ac yn y llysoedd/tribiwnlysoedd fel ein System Cyfiawnder Digidol.

Nid yw'r System Cyfiawnder Digidol yn seilwaith digidol costus newydd i ddatrys anghydfodau busnes, ariannol, teuluol a defnyddwyr pawb ar-lein mewn un lle. Bydd yn cysylltu ac yn adeiladu ar yr holl ddarpariaethau cyfredol ar gyfer gwasanaethau datrys anghydfodau a chynghori ar-lein cyn achos a datrys anghydfodau mewn llysoedd a thribiwnlysoedd ar-lein. Mae'r ecosystem yn cynnwys pyrth ombwdsmon mewn nifer o sectorau, a ariennir

yn bennaf gan ddiwydiant neu sefydliadau ariannol. Mae yna byrth cyfryngu a phyrth cyflafareddu. Mae Porth Anafiadau Swyddogol i delio â channoedd o filoedd o hawliadau am anafiadau personol bob blwyddyn. Ac mae amrywiaeth eang o blatfformau am wybodaeth gyfreithiol a chynghor cyfreithiol ar-lein.

Bydd yr OPRC yn darparu'r rheolau a'r canllawiau sydd eu hangen i integreiddio'r darpariaethau hyn sy'n bodoli'n barod ar-lein, er mwyn caniatáu i unigolion a busnesau ddod o hyd i'r cynghor cywir a'r mecanwaith datrys anghydfodau cywir yn gyflym ac yn effeithlon. Bydd hon yn dasg iterus lle bydd yr OPRC yn anelu at greu cydlyniant o ran yr hyn sydd eisoes yn ecosystem eang o wasanaethau datrys anghydfodau ar-lein.

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r OPRC yn dangos mai'r anhawster pennaf i'r rhan fwyaf o bobl yw llywio'r gofod ar-lein er mwyn dod o hyd i'r ffordd fwyaf addas o ddatrys eu problemau. Bwriad yr OPRC yw gwella'r sefyllfa i ddefnyddwyr ar-lein, drwy gefnogi system ddigidol integredig, ochr yn ochr â mabwysiadu deallusrwydd artiffisial mewn ffordd briodol.

Darllenwch a helpwch yr OPRC drwy ymateb i'r cwestiynau yn y ddogfen hon. Diolch yn fawr.

**Syr Geoffrey Vos**

**Meistr y Rholiau, Cadeirydd y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Ar-lein**

## CYNNWYS

| Pwnc                                                                                  | Tudalen |
|---------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Rhan A – <a href="#">Cyflwyniad</a>                                                   | 5       |
| 1) <a href="#">Nod yr OPRC</a>                                                        | 5       |
| 2) <a href="#">Fframwaith Cyfreithiol yr OPRC</a>                                     | 6       |
| 3) <a href="#">Y Ddogfen Ymgysylltu â'r Cyhoedd</a>                                   | 7       |
| Rhan B – <a href="#">Fframwaith Cynhwysiant Drafft yr OPRC</a>                        | 10      |
| 1) <a href="#">Cyflwyniad</a>                                                         | 10      |
| 2) <a href="#">Dibenion y Fframwaith Cynhwysiant</a>                                  | 10      |
| 3) <a href="#">Cwmpas y Fframwaith Cynhwysiant</a>                                    | 11      |
| 4) <a href="#">Strwythur y Fframwaith Cynhwysiant</a>                                 | 12      |
| 5) <a href="#">Y Fframwaith Cynhwysiant drafft:</a>                                   | 14      |
| • <a href="#">Egwyddorion Sylfaenol</a>                                               | 14      |
| • <a href="#">Cynhwysiant Digidol a Bod yn Agored i Niwed</a>                         | 15      |
| • <a href="#">Ysgrifennu Rheolau, Arferion a Gweithdrefnau Cynhwysol</a>              | 16      |
| • <a href="#">Data ar gyfer Cynhwysiant ac Atebolrwydd</a>                            | 17      |
| • <a href="#">Gwella Pofion ymhlith Defnyddwyr a Gwasanaeth Cynhwysol</a>             | 20      |
| • <a href="#">Canlyniadau Cyfiawnder</a>                                              | 20      |
| • <a href="#">Llywodraethu ac Atebolrwydd</a>                                         | 21      |
| Rhan C – <a href="#">Model Cyn Achos drafft yr OPRC</a>                               | 23      |
| 1) <a href="#">Cyflwyniad</a>                                                         | 23      |
| 2) <a href="#">Pwrpas, Cwmpas ac Amcanion y Model Cyn Achos</a>                       | 24      |
| 3) <a href="#">Strwythur y Model Cyn Achos</a>                                        | 25      |
| 4) <a href="#">Y Model Cyn Achos drafft:</a>                                          | 26      |
| • <a href="#">Egwyddorion ar gyfer y Model Cyn Achos</a>                              | 26      |
| • <a href="#">Egwyddorion defnyddwyr gwasanaethau ar-lein cyn achos</a>               | 27      |
| • <a href="#">Egwyddorion ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein cyn achos</a>       | 28      |
| • <a href="#">Safonau Technegol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein cyn achos</a> | 32      |
| Rhan D – <a href="#">Ymateb i'r Ddogfen Ymgysylltu â'r Cyhoedd</a>                    | 37      |
| 1) <a href="#">Gwybodaeth ymarferol</a>                                               | 37      |
| 2) <a href="#">Crynodeb o'r cwestiynau a ofynnwyd</a>                                 | 38      |

# Rhan A: Cyflwyniad

## Adran 1: Nod yr OPRC

### Gwella Mynediad at Gyfiawnder

1. Nod yr OPRC yw gwella mynediad at gyfiawnder i bawb drwy harneisio pŵer technoleg ddigidol fodern yn y llysoedd sifil a theuluol ac yn y tribiwnlysoedd.
2. Mae'r system gyfiawnder sifil, teuluol a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr wedi hen ennill ei phlwyf ac wedi'i chanoli o amgylch dod ag achosion i'r llys i'w datrys. Er bod amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael bellach i ddatrys anghydfodau cyn achos i helpu pobl i ddatrys eu problemau, mae nifer o rwystrau'n bodoli o hyd er mwyn i bobl gael mynediad at gyfiawnder.
3. Efallai y bydd pobl yn cael trafferth cael mynediad at gyfiawnder oherwydd nad ydynt yn deall eu hawliau, nid ydynt yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, maent yn agored i niwed neu ag anghenion ychwanegol, neu maent wedi'u dychryn gan broses sy'n aml yn hir ac anodd. Mae'r sefyllfa hon yn cael effeithiau sylweddol ar fywydau pobl, eu hiechyd, eu teuluoedd, eu gwaith a'r wlad gyfan.

### Ein gweledigaeth ar gyfer cyfiawnder digidol

4. Mae'r OPRC wedi bod yn edrych ar ddyfodol cyfiawnder digidol ar gyfer llysoedd Sifil, Teuluol a Thribiwnlysoedd, ac rydyn ni bellach am rannu'r weledigaeth hon â chi er mwyn cael eich adborth a'ch mewnbwn.
5. Gweledigaeth yr OPRC yw y dylai'r System Cyfiawnder Digidol fod:
  - Yn hygyrch i bawb
  - Yn haws i bawb ei defnyddio
  - Yn gallu cyflawni cyfiawnder yn gyflymach
  - Yn dryloyw ac y gellir ymddiried yn y system
6. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y gwasanaethau y mae pobl yn eu defnyddio cyn mynd i'r llys. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth gyfreithiol, cyngor a datrys anghydfodau. Cyfeiriwn at hyn fel y gofod "Cyn Achos".
7. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion am nodau'r OPRC, fframwaith cynhwysiant arfaethedig, y model cyn achos arfaethedig,

a'n safonau technoleg a data arfaethedig, sy'n cynnwys defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol.

8. Rydyn ni'n gwahodd eich sylwadau ar weledigaeth yr OPRC, y System Cyfiawnder Digidol, a'r cynigion a'r cwestiynau yn y ddogfen hon.

## Adran 2: Fframwaith cyfreithiol yr OPRC

9. Darparodd Pennod 2 o Ddeddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022 (Deddf 2022) ar gyfer creu'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Ar-lein (yr OPRC). Mae gan yr OPRC y pŵer i wneud rheolau ar gyfer rhai achosion sifil, teuluol a thribiwnlysoedd a gychwynnir ac a ddatblygir yn electronig. Mae'n annibynnol ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
10. Fel yr amlinellir gan y Senedd, mae'r OPRC yn cynnwys tri uwch farnwr a thri chynrychiolydd arbenigol. Ar hyn o bryd, aelodau'r OPRC yw:
  - Y Gwir Anrhydeddus Syr Geoffrey Vos, Meistr y Rholiau, Cadeirydd
  - Y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew McFarlane, Llywydd yr Adran Deuluol
  - Y Gwir Anrhydeddus Andrew Edis, [dros dro] Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd
  - Dr Sarah Stephens, arbenigwr y sector cyngor lleys
  - Brett Dixon, arbenigwr cyfreithiol
  - Gerard Boyers, arbenigwr technoleg
11. Mae Adran 24 o Ddeddf 2022 yn caniatáu i'r OPRC wneud rheolau sy'n effeithio ar wasanaethau datrys anghydfodau ar-lein cyn achos.
12. Mae Adran 19(3) o Ddeddf 2022 yn rhoi hygyrchedd, tegwch, eglurdeb ac arloesedd wrth wraidd cyfiawnder modern, drwy ei gwneud yn ofynnol i weithdrefnau ar-lein gael eu cynllunio ar gyfer pawb ac i gefnogi'r broses o ddatrys anghydfodau'n gyflym ac yn effeithlon, a defnyddio dulliau arloesol i wneud hyn.
13. Mae Adran 24(1) o Ddeddf 2022 yn caniatáu i'r OPRC ddarparu ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a gedwir at ddibenion gwasanaeth datrys anghydfodau ar-lein drwy ddulliau electronig i lys neu dribiwnlys, neu i lys neu dribiwnlys ystyried, at unrhyw ddiben, gamau y mae parti mewn achos wedi'u cymryd, neu nad ydynt wedi'u cymryd, mewn perthynas â gwasanaeth datrys anghydfodau ar-lein.

14. Fe wnaeth Rheolau Gweithdrefnau Ar-lein (Rheoliadau Gweithdrefnau Penodedig) 2025, a ddaeth i rym ar 30 Ebrill 2025, roi pŵer i'r OPRC wneud rheolau ar gyfer (a) achosion sifil a thribiwnlysoedd mewn perthynas ag eiddo, a (b) achosion teuluol ar gyfer rhwymedïau ariannol.
15. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) wrthi'n datblygu gwasanaeth meddiant digidol, lle bydd y rheolau'n cael eu gwneud gan yr OPRC.

### **Adran 3: Y Ddogfen Ymgysylltu â'r Cyhoedd**

16. Dyma'r ddogfen gyntaf i'w chyhoeddi gan yr OPRC sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd. Ei bwriad yw egluro ac ymgynghori ar sail y bydd yn gwneud rheolau neu'n darparu fframweithiau arni yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau datrys anghydfodau a chynghori ar-lein cyn achos **ac** ar gyfer achosion datrys anghydfodau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar-lein.
17. Mae'r ddogfen hon yn egluro ac yn gofyn cwestiynau am ddwy agwedd hollbwysig ar waith arfaethedig yr OPRC.

#### **Fframwaith Cynhwysiant drafft yr OPRC**

18. Mae hyn yn ymwneud â'r gofyniad am hygyrchedd cyffredinol fel y'i nodir yn Neddf 2022. Mae'r Fframwaith Cynhwysiant yn nodi'r egwyddorion, y safonau a'r mecanweithiau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gofyniad yn cael ei gydnabod o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio a gweithredu'r rheolau a'r canllawiau gweithdrefnol arfaethedig. Mae cynhwysiant digidol yn ganolog o ran cynnal tegwch, ymddiriedaeth a mynediad at gyfiawnder yn ein hoes ddigidol.

#### **Model Cyn Achos drafft yr OPRC**

19. Mae hwn yn canolbwyntio ar wasanaethau datrys anghydfodau a chynghori ar-lein cyn achos. Mae'r Model Cyn Achos yn amlinellu fframwaith o egwyddorion a safonau gyda'r bwriad, yn y lle cyntaf, o gydnabod natur ddatblygol y gwasanaethau hyn a chefnogi eu twf a'u gallu i ryngweithredu. Mae'r Model Cyn Achos yn ceisio tywys darparwyr gwasanaethau ar-lein o'r fath mewn dau brif faes: (i) cynorthwyo defnyddwyr i lywio'n llwyddiannus ymhlith y lluo ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfodau, gwybodaeth a chynghori ar-lein cyn achos, a (ii) ynglŷn â'r safonau data y dylent eu defnyddio i hwyluso'r broses o drosglwyddo data yn ddidrafferth rhwng darparwyr.

### Cysoni'r ddarpariaeth yn y System Cyfiawnder Digidol

20. Bydd yr OPRC yn ceisio cysoni darparwyr cyhoeddus gwasanaethau ar-lein a digidol cyn achos a darparwyr preifat neu drydydd parti gwasanaethau ar-lein cyn achos drwy ddarparu egwyddorion a safonau yn y Model Cyn Achos.
21. Er nad yw safonau ac egwyddorion y Model Cyn Achos yn orfodadwy i ddarparwyr preifat ar hyn o bryd, bydd amrywiaeth o fuddion i ddarparwyr eu bodloni, er enghraifft: ennyn ffydd cwsmeriaid drwy allu dangos cydymffurfiaeth, eu cynnwys mewn rhestrau cyhoeddedig o gyfranogwyr, a gallu cael mynediad at ddata a'i gyfnewid mewn fformatau strwythuredig. Gellir gwneud cydymffurfiaeth yn ofyniad ffurfiol maes o law, er enghraifft fel amod caffael, rhestru gwasanaethau neu fynediad Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API)<sup>1</sup> i wasanaethau GLITEF. Bydd cyhoeddi'r Model Cyn Achos yn galluogi darparwyr i gyfrannu at ddatblygu'r gofynion er budd pennaf eu cwsmeriaid, y farchnad a'u heffeithlonrwydd gweithredol eu hunain, ac i safoni eu gwasanaethau â'r egwyddorion a'r safonau cyn iddynt ddod yn orfodol.
22. Her allweddol wrth gefnogi llif data a defnyddwyr rhwng dewisiadau cyhoeddus a phreifat yw'r angen am fframwaith data a'r gallu i ryngweithredu'n ddiogel ar y cyd. Bydd protocolau API yn mynd yn bell i alluogi'r gallu i ryngweithredu, gan ganiatáu i systemau gyfathrebu'n dechnegol ac i ddarparu rhyngwyneb cyffredin i gyfnewid data'n ddiogel. Mae angen methodolegau ychwanegol hefyd, er mwyn sicrhau ansawdd a chywirdeb data, dealltwriaeth gyffredin o gysyniadau cyfreithiol ar lefel data, a dilysu a thrin defnyddwyr yn gyson drwy'r ecosystem. Bydd sicrhau cytundeb ar y safonau data a phrotocolau eraill yn gofyn am ddull cydlynol, y gall yr OPRC ei hwyluso, ac y gallwn ei ddechrau drwy'r ymgynghoriad ar y Safonau Technegol fel rhan o'r Model Cyn Achos.
23. Bydd dogfennau pellach ynglŷn ag ymgysylltu â'r cyhoedd i ddilyn wrth i'r OPRC ddechrau gwneud rheolau neu roi arweiniad yn y maes gwasanaethau datrys anghydfodau a chynghori ar-lein cyn achos ac ar gyfer achosion datrys anghydfodau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar-lein.

---

<sup>1</sup> Set o reolau neu brotocolau yw API sy'n galluogi cymwysiadau meddalwedd i gyfathrebu â'i gilydd er mwyn cyfnewid data, nodweddion a swyddogaethau.



**Dyddiad cau ar gyfer ymateb**

24. Byddai'r OPRC yn falch o dderbyn ymatebion i'r cwestiynau a godwyd yn y ddogfen hon **erbyn 5pm ar 19 Medi 2025**. Dylid cwblhau'r ymatebion ar y ffurflen ymateb sydd ar gael ar dudalen we'r OPRC a'i hanfon at: [OPRCConsultations@justice.gov.uk](mailto:OPRCConsultations@justice.gov.uk)

# Rhan B: Fframwaith

## Cynhwysiant yr OPRC

### Cyflwyniad

25. Yr OPRC sy'n gyfrifol am wneud rheolau sy'n llywodraethu'r arferion a'r gweithdrefnau ar gyfer achosion y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar-lein ar draws awdurdodaethau Sifil, Teuluol a Thribiwnlysoedd. Nod yr OPRC yw gwella mynediad at gyfiawnder i bawb drwy harneisio potensial technoleg ddigidol, nid yn unig o fewn prosesau ffurfiol y llysoedd, ond hefyd cyn i unrhyw achos llys neu dribiwnlys ddechrau.
26. Wrth i wasanaethau cyfiawnder ar-lein a digidol ehangu, maent yn cynnig potensial trawsnewidiol, ond maent hefyd mewn perygl o atgyfnerthu hen rwystrau neu greu rhai newydd. Cynhwysiant digidol yw un o bryderon pennaf yr OPRC.
27. Bydd Fframwaith Cynhwysiant yr OPRC yn ceisio darparu egwyddorion, safonau a mecanweithiau ymarferol i sicrhau bod cynhwysiant wedi'i wreiddio o'r cychwyn cyntaf, wrth gynllunio, gweithredu a gwerthuso rheolau a gwasanaethau gweithdrefnol. Mae cynhwysiant yn ganolog o ran cynnal tegwch, ymddiriedaeth a mynediad at gyfiawnder yn yr oes ddigidol.

### Dibenion y Fframwaith Cynhwysiant

28. Mae'r Fframwaith yn berthnasol i bob gwasanaeth digidol a hybrid o dan awdurdodaeth yr OPRC.
29. Pwrpas y Fframwaith yw:
  - Darparu dull strwythuredig ar gyfer ymgorffori cynhwysiant wrth ddylunio'r Rheolau Gweithdrefnau Ar-lein a'r arfer a'r weithdrefn o dan y Rheolau hynny, gan gynnwys eu gweithredu mewn gwasanaethau cyfiawnder digidol.
  - Cefnogi'r OPRC wrth arfer ei bwerau statudol gyda'r bwriad o sicrhau bod yr arfer a'r weithdrefn o dan y Rheolau Gweithdrefnau Ar-lein yn hygyrch ac yn deg (gweler adran 19(3)(a) o Ddeddf 2022).

- Llywio datblygwyr, dylunwyr, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a phartneriaid yn y llywodraeth i greu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pob defnyddiwr a darpar ddefnyddwyr, yn enwedig y rhai a allai wynebu allgáu digidol, hyder cyfreithiol isel neu sawl ffurf ryngweithiol o anfantais.

**Cwestiwn 1: Ai dyma'r dibenion cywir ar gyfer Fframwaith Cynhwysiant yr OPRC? Os na, pam ddim, a pha ddibenion eraill ddylai'r Fframwaith eu cael?**

## Cwmpas a Nodau'r Fframwaith Cynhwysiant

30. Mae Fframwaith Cynhwysiant yr OPRC yn:

- Rhoi defnyddwyr yng nghanol ei holl weithgareddau, yn enwedig defnyddwyr sy'n cael eu heffeithio gan allgáu digidol, rhwystrau iaith neu fathau croestoriadol o anfantais.
- Sefydlu egwyddorion dylunio sylfaenol, fel hygyrchedd fel anghenraid, iaith glir, tiwtorialau fideo, sgwrsfotiaid a dulliau sy'n cael eu llywio gan brofiadau ac anghenion defnyddwyr.
- Llywio'r broses o wneud rheolau cynhwysol a chynllunio gwasanaethau, gydag adnoddau ymarferol fel yr Asesiad Cynhwysiant Cyflym i nodi a lliniaru risgiau allgáu o gam cynnar.
- Gofyn am strwythurau llywodraethu a mecanweithiau atebolrwydd, gan gynnwys ymgysylltu â phobl sydd â phrofiadau personol o wasanaethau perthnasol, ac adrodd ar gynhwysiant mewn ffordd dryloyw.
- Sefydlu safonau data i fesur cynhwysiant, i nodi bylchau, asesu canlyniadau, ac ysgogi gwelliant parhaus. Dylai darparwyr gwasanaethau gasglu a defnyddio data sydd wedi'i ddadgrynhoi i ddeall pwy sy'n cael ei adael ar ôl, a pham, a dylai'r OPRC ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r broses o wneud rheolau a chynllunio gwasanaethau.

31. Mae'r Fframwaith yn ddogfen ganllaw, gyda'r bwriad o helpu awduron rheolau, darparwyr technoleg, darparwyr gwasanaethau a gwneuthurwyr polisi. Mae'n cynnig map trywydd ymarferol i adeiladu gwasanaethau cyfiawnder digidol sydd nid yn unig yn effeithlon ac y

gellir eu hehangu, ond hefyd yn deg, yn gynhwysol, yn fforddiadwy ac yn atebol i'r cyhoedd y maent yn ei wasanaethu.

**Cwestiwn 2: Ai dyma'r nodau cywir ar gyfer Fframwaith Cynhwysiant yr OPRC? Os na, pam ddim, a pha nodau eraill ddylai'r Fframwaith eu cael?**

## Strwythur y Fframwaith Cynhwysiant

32. Mae'r Fframwaith Cynhwysiant drafft wedi'i drefnu o amgylch yr adrannau craidd canlynol:
  - (1) Egwyddorion Sylfaenol
  - (2) Cynhwysiant Digidol a Bod yn Agored i Niwed
  - (3) Ysgrifennu Rheolau, Arferion a Gweithdrefnau Cynhwysol
  - (4) Dylunio Gwasanaeth Digidol Cynhwysol
  - (5) Data ar gyfer Cynhwysiant ac Atebolrwydd
  - (6) Gwelliannau i Brofion ymhlith Defnyddwyr a Gwasanaeth Cynhwysol
  - (7) Canlyniadau Cyfiawnder
  - (8) Llywodraethu ac Atebolrwydd
33. Mae adran nesaf y ddogfen hon ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys 8 adran Fframwaith Cynhwysiant drafft yr OPRC.
34. Wrth ystyried y Fframwaith Cynhwysiant drafft, dylai darllenwyr nodi bod rhaid cydnabod y gwahaniaethau rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a phreifat.
35. Mae'n ofynnol i wasanaethau'r sector cyhoeddus (e.e. GLITEF) fodloni safonau hygyrchedd a chynhwysiant gorfodol y llywodraeth, fel safonau Safon Gwasanaethau'r Llywodraeth a Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus). Caiff y rhain eu gorfodi drwy fecanweithiau sicrwydd mewnol, rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac asesiadau o wasanaethau.
36. Dylid disgwyl i ddarparwyr preifat neu drydydd parti y mae eu hadnoddau yn rhyngwynebu â'r system gyfiawnder — fel y rhai sydd

wedi'u hintegreiddio drwy API neu wedi'u rhestru ar blatfformau swyddogol — gyd-fynd â'r safonau hyn hefyd, hyd yn oed os nad ydynt wedi'u rhwymo'n gyfreithiol ganddynt yn yr un ffordd. Mae'r Fframwaith yn gosod disgwyliad y bydd darparwyr o'r fath yn dangos cynllun cynhwysol, yn cyhoeddi data defnydd wedi'i ddadgrynhoi, ac yn cefnogi defnyddwyr agored i niwed. Mae'r graddau y gall darparwyr ddisgyn i ffwrdd os disgwylir iddynt fodloni'r safonau hyn, e.e. ar sail adnoddau, yn ddimensiwn i'r drafodaeth y mae'r ddogfen hon yn ceisio'i hwyluso.

37. Er nad yw safonau cynhwysiant darparwyr preifat yn orfodadwy'n uniongyrchol drwy bwerau statudol yr OPRC, gellir gwneud cydymffurfiaeth yn amod caffael, cynhwysiant mewn rhestrau cyhoeddedig neu fynediad at API maes o law. Byddai hyn yn galluogi rhyw fath o ddylanwad i sicrhau bod pob gwasanaeth sy'n cyfrannu at y siwrnai gyfiawnder yn cynnal egwyddorion tegwch, tryloywder a hygrychedd.

\*\*\*

# Y Fframwaith Cynhwysiant Drafft

## Adran 1: Egwyddorion Sylfaenol

38. Cynhwysiant fel Rheidrwydd Cyfiawnder: Nid bonws yw cynhwysiant mewn gwasanaethau cyfiawnder digidol. Mae'n ofyniad sylfaenol i sicrhau tegwch, ecwiti a hygyrchedd. Dylai'r arfer a'r weithdrefn o dan y Rheolau fod yn hygyrch ac yn deg (Adran 19(3)(a) o Ddeddf 2022). Mae cynllunio rheolau a gwasanaethau mewn ffordd gynhwysol yn cryfhau tegwch gweithdrefnol ac uniondeb y system gyfiawnder.
39. Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr: Gall defnyddwyr wynebu anghydraddoldebau strwythurol a rhwystrau mynediad. Felly, dylai'r gwaith dylunio ddechrau gydag anghenion defnyddwyr, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfanteision sy'n gorgyffwrdd ac yn gysylltiedig â'i gilydd, fel pobl anabl hŷn, unigolion ar incwm isel a/neu sgiliau Saesneg cyfyngedig, unigolion â mynediad cyfyngedig (neu ddim) at wasanaethau cyfreithiol ac unigolion heb fynediad at dechnoleg ddigidol (neu gymorth digidol) neu mewn ardaloedd sydd â chysylltedd rhyngrwyd gwael.
40. Hygyrchedd drwy Ddylunio: Dylid dylunio gwasanaethau i fodloni neu ragori ar Reoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus a dylid eu profi gyda thechnolegau cynorthwyl, lled band isel, a dulliau mewnbyn amgen. Mae hygyrchedd yn golygu cael gwared ar rhwystrau corfforol, gwybyddol, ieithyddol a seicolegol. Dylai'r broses o ddylunio ystyried mynediad cyfyngedig at ddyfeisiau, tlodi data, rhwystrau iaith a thrawma, er mwyn symud y baich o'r angen i ddefnyddwyr orfod addasu tuag at addasu systemau yn lle hynny.
41. Dylunio sy'n cael ei Lywio gan Ddata: Mae gosod safonau data, gan gynnwys pa ddata i'w gasglu a sut i'w ddehongli, yn gyfrifoldeb sylfaenol i alluogi system gyfiawnder ymatebol, dryloyw ac atebol sy'n hyrwyddo cynhwysiant. Dylid dylunio gwasanaethau i gynhyrchu data ystyrlon a all lywio gwelliant parhaus. Mae hyn yn cynnwys data defnydd sydd wedi'i ddadgyfuno, patrymau mynediad, pwyntiau gollwng a chanlyniadau, gyda mesurau diogelwch ar gyfer preifatrwydd, cymesuredd a defnydd moesegol.

## Adran 2: Cynhwysiant Digidol a Bod yn Agored i Niwed

42. Cynhwysiant Digidol: Mae hyn yn golygu bod yr holl ddefnyddwyr, beth bynnag fo'u cefndir, hunaniaeth, neu allu, yn gallu deall, llywio, ac ymgysylltu â phrosesau cyfiawnder digidol o'r dechrau i'r diwedd, heb wynebu rhwystrau. Mae'n cael ei siapio gan amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys incwm, oedran, daearyddiaeth, anabledd, llythrennedd, diwylliant a rhywedd. Mae'n ganolog i wireddu mynediad at gyfiawnder yn yr oes ddigidol.
43. Bod yn agored i niwed o fewn y Gwasanaethau Sifil, Teuluol a Thriwlynlysoedd: Bydd yr OPRC yn ystyried y dulliau cyfredol o ymdrin â bod yn agored i niwed mewn awdurdodaethau perthnasol. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys:
- Rheolau Gweithdrefnau Sifil, Cyfarwyddyd Ymarfer 1A (Cyfranogiad Partïon neu Dystion Agored i Niwed)
  - Rheolau Gweithdrefnau Teuluol, Rhan 3A a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA (Personau Agored i Niwed: Cyfranogiad mewn Achosion a Rhoi Tystiolaeth)
  - Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cymru a Lloegr), Canllawiau Llywyddol: Partïon a thystion agored i niwed mewn achosion Tribiwnlys Cyflogaeth
  - Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambwr Mewnfudo a Lloches), Nodyn Canllaw Llywyddol ar y Cyd Rhif 2 o 2010: Canllawiau i Blant, Oedolion Agored i Niwed ac Apelyddion Sensitif
44. Cefnogi Defnyddwyr Agored i Niwed: Dylai darparwyr gwasanaethau asesu a fyddai modelau digidol yn unig yn eithrio grwpiau o ddefnyddwyr craidd a gwneud addasiadau i liniaru'r eithriad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys:
- Cynnig llwybrau nad ydynt yn ddigidol a llwybrau digidol â chymorth i sicrhau y gall defnyddwyr gael cymorth drwy'r ffôn, tiwtorialau fideo, sgwrsfotiaid neu wyneb yn wyneb, neu gyda chymorth cyfryngwyr cymunedol
  - Cefnogi ffynonellau amgen o fynediad digidol fel partneriaethau â mannau sydd â mynediad digidol cyhoeddus fel llyfrgelloedd, cynghorau, clinigau cyfreithiol a chanolfannau iechyd

- Datblygu gwasanaethau sy'n galluogi cyfryngwyr neu eiriolwyr i weithredu ar ran defnyddiwr.

### **Adran 3. Ysgrifennu Rheolau, Arferion a Gweithdrefnau Cynhwysol**

45. Iaith Syml ac Eglurder Gweithdrefnol: Dylai'r Rheolau fod yn syml ac wedi'u mynegi'n syml (Adran 19(3)(b) o Ddeddf 2022), a dylai arferion a gweithdrefnau oddi tanynt fod yn hygyrch ac yn deg. (Adran 19(3)(a) o Ddeddf 2022). Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r Rheolau drwy dechnoleg, a:
  - Bod yn glir, yn syml a heb jargon, gyda thermau cyfreithiol wedi'u hegluro neu'n cael eu hosgoi
  - Ar gael mewn ieithoedd gwahanol
  - Bod yn hygyrch i ddefnyddwyr â llythrennedd digidol isel a allai fod angen cymorth gweithdrefnol ar-lein
  - Bod yn ymatebol i anghenion defnyddwyr sy'n agored i niwed
  - Wedi'i gefnogi gan ddiogelwch gweithdrefnol (e.e. gallu troi at berson a pherson yn gallu cymryd yr awenau, opsiynau â chymorth)
  - Wedi'i strwythuro er mwyn galluogi defnyddwyr i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud, pam, a phryd, er mwyn galluogi eglurder gweithdrefnol a chefnogi mynediad at gyfiawnder.
46. Galluogi Mynediad: Dylai'r Rheolau (a'r arferion a'r gweithdrefnau oddi tanynt), ragweld rhwystrau a gofyn i wasanaethau ddarparu cymorth cynhwysol. Er enghraifft, drwy alluogi llwybrau digidol â chymorth. At hynny, fel sy'n ofynnol yn benodol gan statud:
47. Lle bo'r Rheolau'n ei gwneud yn ofynnol i berson (a) gychwyn, cynnal neu symud ymlaen ag achos drwy ddulliau electronig, neu (b) gymryd rhan mewn achos, ac eithrio gwrandawriad, drwy ddulliau electronig, dylai'r Rheolau hefyd ddarparu, os nad oes gan y person gynrychiolaeth gyfreithiol, y gall y person ddewis gwneud hynny drwy ddulliau nad yw'n electronig yn lle hynny (Adran 19(6) o Ddeddf 2022).



48. Lle bo'r Rheolau yn ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd rhan mewn gwrandawriad drwy ddulliau electronig, dylai'r Rheolau hefyd ddarparu y gall llys neu dribiwnlys, ar gais neu o'i fenter ei hun, orchymyn neu gyfarwyddo fel arall i'r person hwnnw, neu unrhyw berson arall, gymryd rhan drwy ddulliau nad yw'n electronig (Adran 19(7) o Ddeddf 2022).

## **Adran 4. Dylunio Gwasanaeth Digidol Cynhwysol**

49. Mae'r adran hon yn berthnasol i'r holl wasanaethau ar-lein a digidol a hybrid a ddatblygwyd neu a integreiddiwyd o dan awdurdodaeth yr OPRC, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan gyrrff cyhoeddus (fel GLITEF) a darparwyr nad ydynt yn gyhoeddus y mae eu hadnoddau'n rhyngwynebu â'r system gyfiawnder (e.e. drwy API neu restrau swyddogol).
50. Ymchwil a Chyd-Ddylunio: Wrth ddatblygu gwasanaethau digidol, dylai'r darparwr gynnal ymchwil cynhwysol ymhlith defnyddwyr sy'n ymwneud â'r defnyddwyr y bwriedir y gwasanaeth ar eu cyfer (ar y ddwy ochr). Lle ceir gwasanaeth ar gyfer y cyhoedd, dylai ymchwil gynnwys defnyddwyr sydd â phrofiad o allgáu a dilysu rhagdybiaethau drwy gyd-ddylunio a phrofi prototeipiau gyda sampl gynrychioliadol.
51. Safonau Dylunio'r Sector Cyhoeddus: Dylai gwasanaethau'r sector cyhoeddus gydymffurfio â Safon orfodol Gwasanaethau'r Llywodraeth gyda gwelliannau ar gyfer anghenion sy'n benodol i gyfiawnder, a safonau hygyrchedd, gan gynnwys Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus.
52. Disgwyliadau Cynhwysiant y Sector nad yw'n Gyhoeddus: Dylai adnoddau'r sector nad yw'n Gyhoeddus sy'n rhyngwynebu â'r system gyfiawnder hefyd ddangos eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion dylunio cynhwysol. Lle mae'r adnoddau hyn yn cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn integreiddio â systemau'r llysoedd neu wedi'u rhestru ar blatfformau'r llywodraeth, dylent fodloni safonau gofynnol, fel Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus a chydymffurfio â gofynion y Fframwaith hwn.
53. Cynnwys ac Iaith Gynhwysol: Dylai cynnwys ysgrifenedig ddefnyddio iaith glir, osgoi jargon cyfreithiol, a lle bo'n briodol adlewyrchu oedran darllen o 9–11. Lle bo angen, dylai gynnig awgrymiadau am adnoddau, tiwtorialau fideo neu esboniadau byrion. Dylid cynnig cymorth aml-ieithog neu destun i leferydd hefyd lle bo'n bosib i adlewyrchu cymuned defnyddwyr y gwasanaeth.

54. Cymorth Llythrennedd Cyfreithiol: Dylid cael cynnwys esboniadol sydd wedi'i fewnosod, canllawiau i ddefnyddwyr ar ffurf cyfieithiadau, siartiau llif, tiwtorialau fideo a sgysiau byw. Dylai'r broses ddylunio rymuso defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu problemau cyfreithiol.
55. Sbardunau Cynhwysiant sydd wedi'u Mewnosod: Dylai dyluniad ar gyfer gwasanaethau i'r cyhoedd fod wedi'i fewnosod â 'sbardunau cynhwysiant' sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ystyried fformatau amgen, cyfryngwyr cymunedol neu ddangosyddion agored i niwed ar bwyntiau hollbwysig ar hyd siwrnai defnyddwyr.
56. Dyluniad sy'n Seiliedig ar Brofiad ac Anghenion: Dylai darparwyr sicrhau eu bod yn defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer defnyddwyr eu gwasanaethau penodol, ac ystyried yr angen i ddefnyddio iaith gyfeillgar, galonogol, ac osgoi iaith sy'n 'sbarduno' neu ryngwynebau rhy ffurfiol. Dylent ystyried cyflwr emosiynol defnyddwyr, yn enwedig y rhai sydd â hen brofiad o drawma yng nghyd-destun y system gyfiawnder.
57. Cynhwysiant sy'n ymwneud â rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau (API): Dylai darparwyr gwasanaethau nad ydynt yn y sector cyhoeddus sy'n ceisio cael mynediad at API y llys, gan gynnwys darparwyr yn y gofod cyn achos, fodloni safonau cynhwysiant a nodir yn y Fframwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â safonau hygyrchedd (e.e. Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus) cynnig cymorth aml-ieithog, ymgorffori iaith glir, sicrhau optimeiddio symudol, a chyhoeddi data wedi'i ddadgrynhoi.
58. Dylai darparwyr gwasanaethau ddangos dyluniad cynhwysol a chymorth i ddefnyddwyr agored i niwed a bwriedir i'r Fframwaith Cynhwysiant gynnwys rhestr wirio i gefnogi hyn.

## **Adran 5. Data ar gyfer Cynhwysiant ac Atebolrwydd**

### **Sefydlu Safonau Data ar gyfer Cynhwysiant**

59. I asesu a gwella cynhwysiant ar draws gwasanaethau cyfiawnder digidol, dylid ymgorffori prosesau casglu a dadansoddi data safonol fel rhan o'r broses ddylunio a chyflenwi. Mae hyn yn cynnwys:
- Cydymffurfio â'r safonau data a thechnoleg ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyn achos ym Model Cyn Achos yr OPRC.

- Diffinio set graidd o ddangosyddion cynhwysiant (e.e. mynediad at ddyfeisiau, hyder digidol, angen am gymorth digidol). Bwriedir i'r Fframwaith Cynhwysiant nodi dangosyddion cynhwysiant.
  - Annog pob gwasanaeth i gasglu data wedi'i ddadgrynhoi yn ôl oedran, rhywedd, anabledd, ethnigrwydd, cefndir economaidd-gymdeithasol a lleoliad.
  - Casglu data ar lefel system fel cyfraddau gollwng, ail-fynediad, a'r defnydd o sianeli cymorth, a'r pwyntiau lle mae'r rhain yn digwydd.
60. Lle bo gwasanaethau'n rhychwantu sawl platfform neu ddarparwr, dylid cydlynu'r broses o gasglu data i sicrhau cysondeb a chyflawnrwydd.

#### **Creu Set Ddata Cynhwysiant Cyfiawnder**

61. Lle bo'n briodol ac yn ddiogel, dylai darparwyr ddatblygu set ddata ddienw ar gyfer y gwasanaeth cyfan sy'n cefnogi:
- Nodi rhwystrau sy'n wynebu grwpiau gwahanol
  - Gwasanaethau meincnodi ar draws platfformau
  - Cynhyrchu mewnwelediadau i lywio'r broses o greu rheolau cynhwysol ac ail-ddylunio gwasanaethau
62. Bydd hyn yn galluogi dysgu mewnol a chraffu annibynnol.

#### **Preifatrwydd, Tryloywder a Gwelliant Parhaus**

63. Boed cyn achos neu mewn achos llys neu dribiwnlys, dylai'r broses o gasglu data fod yn dryloyw, yn gymesur, yn ddiogel ac wedi'i chynllunio gyda hawliau'r defnyddiwr mewn cof.
64. Yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol, dylai gwasanaethau:
- Ddarparu esboniadau clir o ba ddata sy'n cael ei gasglu, pam, a sut bydd yn cael ei ddefnyddio
  - Sicrhau caniatâd ar sail penderfyniad cytbwys ar gyfer casglu data dewisol
  - Gynnal preifatrwydd, yn enwedig ymhlith defnyddwyr a ymleiddiwyd.

65. Dylai mewnwelediadau data gael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd i hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd a dysgu ledled y sector, fel adroddiadau cynhwysiant chwarterol i'r OPRC a grwpiau cynghori i ddefnyddwyr.

## **Adran 6. Gwella Profion ymhlith Defnyddwyr a Gwasanaethau Cynhwysol**

66. Asesiad Cynhwysiant Cyflym: Dylai pob gwasanaeth newydd gynnal Asesiad Cynhwysiant Cyflym yn ystod y cyfnod datblygu cynnar. Mae hon yn rhestr wirio syml ac yn adnodd ategol i nodi risgiau eithrio tebygol yn gynnar yn ystod y datblygiad. Byddai Asesiad Cynhwysiant Cyflym yn sicrhau bod dylunwyr yn deall pwy sy'n debygol o gael eu heithrio a pha gamau lliniaru sydd eu hangen, ar ddechrau'r broses ddatblygu. Bwriedir cynnwys Adnodd Asesu a rhestr wirio Asesiad Cynhwysiant Cyflym yn y Fframwaith Cynhwysiant.
67. Profi Cynhwysol: Dylid profi gwasanaethau gydag ystod amrywiol o ddefnyddwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion hygyrchedd, llythrennedd isel a hyder isel. Cynnwys defnyddwyr mewn cylchoedd dylunio iterus.
68. Metrigau a Monitro: Dylai darparwyr gasglu data ar fetrigau perthnasol, fel cwblhau tasgau (a yw defnyddwyr yn cwblhau'r gwasanaeth yn llwyddiannus ac yn deall y camau nesaf), cyfraddau gollwng, defnydd digidol â chymorth, hyder a boddhad defnyddwyr. Dylai hyn gynnwys asesiadau ynghylch a yw defnyddwyr yn deall eu hawliau, eu dewisiadau, a goblygiadau eu penderfyniadau. Dylid dadgyfuno cyfraddau llwyddiant yn ôl grŵp demograffig.
69. Adborth a Gwelliant Parhaus: Dylai darparwyr gynnig ffyrdd hygyrch ac amserol i ddefnyddwyr a chefnogi darparwyr i roi adborth. Dylent hefyd gyhoeddi eu canfyddiadau a gwella'r gwasanaeth yn seiliedig ar fewnbwn.

## **Adran 7: Canlyniadau Cyfiawnder**

70. O Ddefnyddioldeb i Ganlyniadau: Mae'r Fframwaith hwn yn cydnabod arwyddocâd canlyniadau cyfiawnder ar lefel defnyddiwr a lefel system.
- Mae canlyniadau lefel defnyddwyr yn cynnwys mwy o ddealltwriaeth, hyder, datrys problemau, a'r gallu i gymryd y camau nesaf.

- Mae canlyniadau lefel system yn cynnwys tegwch, tryloywder gweithdrefnol, amseroldeb ac atebolrwydd.
71. Mesurau Lefel System a Lefel Defnyddiwr: Lle bo'n briodol, dylai darparwyr olrhain canlyniadau ar lefel yr unigolyn (e.e. datrysiad llwyddiannus a chynnydd mewn gallu cyfreithiol) a lefel system (e.e. llai o ôl-groniadau a chynnydd mewn cyrhaeddiad i grwpiau dan anfantais). Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth, datrysiad, grymuso a'r gallu i weithredu ar benderfyniadau a adroddir gan ddefnyddwyr, ac adborth gan glinigau neu gynghorwyr cyfreithiol.

## **Adran 8: Llywodraethu ac Atebolrwydd**

72. Perchnogaeth a Chyfrifoldeb: Mae darparwyr gwasanaethau digidol yn gyfrifol ac yn atebol am fesur cynhwysiant ar draws timau cyflawni a dylent ymgorffori dangosyddion perfformiad allweddol cynhwysiant mewn cynlluniau gwaith a dogfennau llywodraethu strategol.
73. Tryloywder: Dylai darparwyr gyhoeddi Asesiadau Cynhwysiant Cyflym, crynodebau ymchwil defnyddwyr, a data perfformiad gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys data sydd wedi'i ddadgyfuno ar ddefnydd a chwblhau tasgau.
74. Grwpiau Cynghori: Dylid adolygu metrigau cynhwysiant a'r Fframwaith hwn mewn ymgynghoriad â grwpiau cynghori, sefydliadau cyfiawnder cymunedol, darparwyr cymorth, a defnyddwyr at ddibenion gwelliant parhaus.
75. Adolygiad a Goruchwyliaeth Annibynnol: Dylai darparwyr gomisiynu adolygiadau cyfnodol i asesu cydymffurfiaeth â'r Fframwaith hwn, cynrychiolaeth mewn ymchwil ymhlith defnyddwyr a chanlyniadau cyfiawnder.
76. Rôl Oruchwylio'r OPRC: Fel y corff sy'n gwneud rheolau, bydd yr OPRC yn ceisio ymgorffori cynhwysiant yn ei waith craffu ar Reolau newydd neu ddiwygiedig (yn ogystal â'r arferion a'r gweithdrefnau oddi tanynt) ac yn sicrhau bod dulliau adrodd ar fetrigau cynhwysiant yn rhan o'i fframwaith gwerthuso.
77. Cynhwysiant mewn Caffael: Dylai pob proses gaffael sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyfiawnder digidol gynnwys meini prawf clir sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddangos sut byddant yn bodloni'r egwyddorion cynhwysiant a amlinellir yn y Fframwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys disgwyliadau ar gyfer dyluniad hygyrch, gwaith profi gyda

grwpiau agored i niwed, a chyhoeddi defnydd data wedi'i ddadgyfuno. Lle bo'n bosib, dylai'r meini prawf fod yn fesuradwy, yn feincnodol ac yn orfodadwy.

78. Hawl i Herio: Dylai defnyddwyr a chyfryngwyr allu codi pryderon ynglŷn â nodweddion neu rwystrau gwaharddol mewn gwasanaethau cyfiawnder digidol. Bydd mecanwaith Hawl i Herio ffurfiol yn cael ei ystyried er mwyn galluogi adolygiad gan gorff annibynnol neu bwyllgor goruchwyllo.

\*\*\*

79. Bydd yr atodiadau a fydd yn cael eu creu ar gyfer y Fframwaith Cynhwysiant yn dilyn yr ymarfer ymgysylltu hwn ac yn cael eu rhannu fel drafft, am sylwadau, cyn cyhoeddi'r Fframwaith Cynhwysiant.

**Cwestiwn 3: A yw Fframwaith Cynhwysiant drafft yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddorion, y safonau a'r mecanweithiau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod cynhwysiant digidol wedi'i wreiddio o'r cychwyn cyntaf yng ngwaith yr OPRC? Os na, pam ddim, a pha egwyddorion, safonau a mecanweithiau eraill y dylai'r Fframwaith eu cynnwys?**

# Rhan C: Y Model Cyn Achos Drafft

## Cyflwyniad i'r Model Cyn Achos

80. Mae Model Cyn Achos drafft yr OPRC yn nodi fframwaith o egwyddorion a safonau ar gyfer gwasanaethau datrys anghydfodau a chynghori ar-lein cyn achos. Bwriad yr egwyddorion a'r safonau sy'n llunio'r Model Cyn Achos ar gyfer darparu gwasanaethau cyn achos digidol yw cynorthwyo partïon i ddeall eu problemau cyfreithiol ac i ddatrys anghydfodau heb orfod ymglyfreitha.
81. Bwriad yr egwyddorion a'r safonau hyn, yn y lle cyntaf, yw cydnabod ecosystem sy'n datblygu gwasanaethau o'r fath a chefnogi ei effeithiolrwydd, ei dwf a'i allu i ryngweithredu. Yn benodol, mae'r Model Cyn Achos yn ceisio arwain darparwyr gwasanaethau ar-lein o'r fath mewn dau brif faes: (i) cynorthwyo defnyddwyr i lywio'n llwyddiannus ymhlith y llu o ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfodau a chynghori ar-lein cyn achos, a (ii) o ran y safonau data a fydd yn sicrhau ffydd y cyhoedd a throsglwyddo data yn ddidrafferth wrth i bobl symud rhwng y gwahanol ddarparwyr cyn achos.
82. Efallai mai'r Model Cyn Achos ar gyfer rhannau cyn achos y System Cyfiawnder Digidol yw'r rhan fwyaf arloesol o ran strwythur yng nghylch gwaith yr OPRC. Mae'r sylfaen statudol bresennol yn adran 24 o Ddeddf 2022. Er mwyn cyflawni'r ddau amcan a nodir yn y paragraff olaf, gall yr OPRC benderfynu, yn y dyfodol, wneud rheolau ar gyfer yr egwyddorion a'r safonau y dylai darparwyr gwasanaethau eu dilyn yn y gofod cyn achos ar-lein. Mae'n debyg y byddai canllawiau'n cyd-fynd â rheolau o'r fath.
83. Ar hyn o bryd, serch hynny, mae'r OPRC yn bwriadu cyhoeddi ei Fodel Cyn Achos ar ffurf canllawiau, yn hytrach na rheolau, i alluogi darparwyr gwasanaethau datrys anghydfodau a chynghori cyn achos ar-lein i gysoni eu gwasanaethau a'u safonau data, dros amser, â'r rhai a bennir gan yr OPRC.

## **Dibenion, Cwmpas a Nodau'r Model Cyn Achos drafft**

84. Amcan a phwmpas y Model Cyn Achos yw:
- (1) Annog defnydd cyhoeddus ehangach o ddulliau digidol effeithlon ac effeithiol o nodi problemau cyfreithiol, cael mynediad at gyngor cyfreithiol, a datrys anghydfodau, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artifisial.
  - (2) Gwella mynediad y cyhoedd at yr ystod eang o wasanaethau cyfreithiol sydd ar gael ar-lein.
  - (3) Helpu i sicrhau bod anghydfodau'n cael eu datrys ar y lefel gynharaf a mwyaf priodol o fewn y system, yn gymesur â chyd-destun yr achos, er mwyn sicrhau'r canlyniadau positif mwyaf posib i ymgyswngwyr a chymdeithas.
85. Bwriedir i'r Model Cyn Achos fod yn berthnasol i bob gwasanaeth ar-lein, digidol a hybrid o dan awdurdodaeth yr OPRC. Bydd y gwasanaethau hyn yn cynnwys gwybodaeth gyfreithiol, cyngor cyfreithiol a datrys anghydfodau ar draws yr ystod o achosion a fyddai, pe baent yn y llys, yn cael eu clywed mewn awdurdodaethau sifil, teuluol a thribiwnlysoedd. Gall y rhain fod yn wasanaethau'r sector cyhoeddus, preifat neu drydydd sector, er y rhagwelir ar hyn o bryd mai'r arloeswyr fydd darparwyr preifat sy'n ysgogi arloesedd ac yn effeithio ar y farchnad.
86. Nod y Model Cyn Achos yw annog darparwyr cyn achos i fabwysiadu a dilyn egwyddorion a safonau yn y maes cyn achos sy'n gyson â'r rhai a ddefnyddir i ddatrys anghydfodau ar-lein yn y llys.
87. Bydd fframwaith cyffredin o egwyddorion a safonau sy'n cael ei fabwysiadu drwy gydol y System Cyfiawnder Digidol ar gyfer gwasanaethau datrys anghydfodau a chynghori ar-lein cyn achos ac ar gyfer achosion datrys anghydfodau'r llysoedd a thribiwnlysoedd ar-lein o fudd mawr. Bydd yn hwyluso proses ddidrafferth o ran trosglwyddo data rhwng darparwyr cyhoeddus a phreifat cyn achos, a, lle bo angen, o'r darparwyr hynny i systemau datrys anghydfodau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar-lein (fel Hawliadau Arian Sifil Ar-lein, y platfform Eiddo/Mediant newydd, a Hawliadau Iawndal Ar-lein).



**Cwestiwn 4: Ai dyma'r dibenion, y cwmpas a'r nodau cywir ar gyfer Model Cyn Achos yr OPRC? Os na, pam ddim, a pha ddibenion, cwmpas a nodau eraill ddylai'r Model Cyn Achos eu cael?**

## **Strwythur y Model Cyn Achos drafft**

88. Mae'r Model Cyn Achos drafft wedi'i drefnu o amgylch yr adrannau craidd canlynol
- (1) Egwyddorion y Model Cyn Achos
  - (2) Egwyddorion ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ar-lein cyn achos
  - (3) Egwyddorion ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein cyn achos
  - (4) Safonau Technegol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein cyn achos
89. Mae'r adran nesaf o'r ddogfen ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys 4 adran Model Cyn Achos drafft yr OPRC.
90. Wrth ystyried y Model Cyn Achos drafft, dylai darllenwyr nodi, fel oedd yn wir gyda'r Fframwaith Cynhwysiant drafft ac fel y crybwyllwyd uchod, fod yn rhaid cydnabod y gwahaniaethau rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a phreifat. Dylai darparwyr cyhoeddus gwasanaethau ar-lein cyn achos a darparwyr preifat neu drydydd parti gwasanaethau ar-lein cyn achos gysoni eu gwasanaethau â'r egwyddorion a'r safonau a nodir gan y Model Cyn Achos. Mae hyn yn berthnasol i'r darparwyr hynny y mae eu hadnoddau'n rhyngwynebu â system gyfiawnder y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar-lein - fel y rhai sydd wedi'u hintegreiddio drwy API neu wedi'u rhestru ar blatfformau swyddogol — lawn cymaint ag i'r rheini nad ydynt yn gwneud hynny.
91. Fel y soniwyd yn barod, nid yw'r Model Cyn Achos, ar hyn o bryd, yn orfodadwy yn erbyn darparwyr preifat drwy bwerau statudol yr OPRC. Serch hynny, bydd yna fuddion o ran bodloni'r safonau a'r egwyddorion hyn, a gellir gwneud cydymffurfiaeth yn amod caffael, ei chynnwys ar restrau'r llywodraeth neu fynediad at API ar gyfer Gwasanaethau GLITEM maes o law.

92. Mae angen i Safonau Technegol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein cyn achos gael eu siapio gyda chyfranogwyr y farchnad, arbenigwyr a rhanddeiliaid yn seiliedig ar arferion gorau, gan ddefnyddio safonau cyfredol i'r graddau mwyaf. Nid rôl na bwriad yr OPRC yw ailddyfeisio'r olwyn na chreu gwrthdaro gyda'r nifer o brotocolau amrywiol sydd eisoes yn bodoli. Rydyn ni'n annog arloeswyr ac eraill i gymryd rhan yn y broses o siapio a sefydlu Safonau Technegol sy'n drylwyr ac yn ennyn ffydd, tra hefyd yn ymarferol, yn ddeinamig ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys y gofynion data y bydd angen adrodd arnynt.

\*\*\*

## **Y Model Cyn Achos Drafft**

### **Adran 1: Egwyddorion y Model Cyn Achos**

#### **Amcanion ac egwyddorion craidd**

93. Y prif amcan yw hyrwyddo mynediad at gyfiawnder, a galluogi i hawliadau gael eu datrys yn gyflym, yn effeithlon ac yn deg, ac am gost gymesur.
94. Lle bo'n bosib, dylid datrys anghydfodau yn deg, yn gydsyniol ac yn gyflym heb droi at ymgysylltu'n effeithiol.
95. Dylai defnyddwyr gwasanaethau cyfreithiol fod yn wybodus ac wedi cael cyngor am faterion cyfreithiol er mwyn eu grymuso i wneud penderfyniadau a datrys anghydfodau lle bo modd heb fynd i'r llys.
96. Dylai gwasanaethau ar-lein a digidol sy'n darparu gwybodaeth gyfreithiol, cyngor cyfreithiol a datrys anghydfodau fod yn ddealladwy ac yn hygyrch i bob defnyddiwr, gan ddiwallu anghenion amrywiol defnyddwyr gyda gwahanol alluoedd cyfreithiol a digidol, gyda dyluniad clir sy'n caniatáu iddynt ymgysylltu'n effeithiol â'r broses.
97. Dylai defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau cyfreithiol ar-lein gydymffurfio â fframwaith cynhwysiant yr OPRC.

## **Adran 2: Egwyddorion ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein cyn achos**

### **Ymddygiad**

98. Dylai pob defnyddiwr gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth gyfreithiol, cyngor cyfreithiol a datrys anghydfodau gydymffurfio â'r egwyddorion ymddygiad canlynol.
99. Dylent llynu at y codau ymddygiad a'r telerau gwasanaeth a gyhoeddwyd gan ddarparwyr gwasanaethau ar-lein a digidol.
100. Dylent drin gweithwyr ac asiantau'r darparwyr gwasanaethau ar-lein a digidol â pharch a chwarteisi.
101. Dylent drin defnyddwyr eraill gwasanaethau ar-lein a digidol â pharch a chwarteisi.
102. Dylent barchu a diogelu cyfrinachedd gwybodaeth a ddatgelir gan bartïon eraill yn ystod prosesau datrys anghydfodau ar-lein a digidol.

### **Cydweithredu**

103. Dylai'r bartïon mewn anghydfod, sydd wedi'u hatgyfeirio at wasanaeth datrys anghydfodau digidol ar-lein, gydweithredu â'i gilydd, cyn belled ag y bo modd, i sicrhau datrysiad teg, cydsyniol a chyflym. Mae cydweithredu'n cynnwys y gofynion canlynol.
104. Dylai'r bartïon gyfathrebu'n agored ac yn dryloyw, gan rannu digon o wybodaeth i ddeall safbwynt ei gilydd.
105. Dylent nodi pa faterion sydd o dan anghydfod a beth sydd wedi'i gytuno.
106. Lle bo'n bosib, dylent gyfyngu ar yr anghydfod.
107. Dylent nodi a datgelu unrhyw wybodaeth a thystiolaeth sy'n berthnasol i'r materion o dan anghydfod.
108. Dylent ystyried pob dull priodol o ddatrys anghydfod gyda'r nod o setlo'r materion heb achos llys.
109. Dylent llynu wrth amserlenni y cytunwyd arnynt i osgoi oedi.
110. Dylent gadw costau i'r lleiafswm.

### **Adran 3: Egwyddorion ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein cyn achos**

#### **Tryloywder**

111. Dylai pob darparwr gwasanaethau ar-lein a digidol sy'n darparu gwybodaeth gyfreithiol, cyngor cyfreithiol a datrys anghydfodau gydymffurfio â'r egwyddorion canlynol ynglŷn â thryloywder eu gwasanaethau.
112. Dylent ddatgan yn glir eu meysydd arbenigedd a nodi unrhyw gyfyngiadau ar gwmpas y gwasanaethau y gallant eu darparu.
113. Dylai strwythurau ffioedd ac arferion bilio ar gyfer eu gwasanaethau fod yn dryloyw ac yn glir o'r cychwyn cyntaf.
114. Dylai polisïau ar gyfer cadw a rhannu data fod yn dryloyw ac yn glir.
115. Dylent gael polisi gwrthdaro buddiannau, a dylid datgelu unrhyw wrthdaro buddiannau posib.
116. Dylent gasglu data dienw a darparu adroddiadau cyfnodol yn ôl yr angen i sicrhau cydymffurfiaeth a thryloywder.

#### **Hygyrchedd**

117. Dylai pob darparwr gwasanaethau ar-lein a digidol sy'n darparu gwybodaeth gyfreithiol, cyngor cyfreithiol a datrys anghydfodau gydymffurfio â Fframwaith Cynhwysiant yr OPRC, a fydd yn cynnwys cydymffurfio â'r egwyddorion canlynol.
118. Dylai gwasanaethau fod yn hygyrch i bob defnyddiwr, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, iaith, neu lythrennedd digidol.
119. Dylid cymryd mesurau priodol i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bobl ag anableddau.
120. Dylid cymryd mesurau priodol hefyd i sicrhau bod gwasanaethau'n gynhwysol yn ddigidol.
121. Dylid darparu gwybodaeth am y gwasanaethau mewn iaith glir.
122. Dylid gwneud darpariaeth ar gyfer defnyddwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

- 123. Dylai gwasanaethau fod yn hygyrch o bob dyfais sydd wedi'i chysylltu ar-lein, gan gynnwys ffonau symudol, ac ar gyfer defnyddwyr â lled band isel.
- 124. Dylai darparwyr gynnal platfformau ar-lein dibynadwy ar gyfer eu gwasanaethau, a dylid eu harloesi yn ôl yr angen i ddarparu ar gyfer datblygiadau technolegol a newidiadau yn y galw am wasanaethau.

#### **Cyfrinachedd a phreifatrwydd**

- 125. Dylai pob darparwr gwasanaethau ar-lein a digidol sy'n darparu gwybodaeth gyfreithiol, cyngor cyfreithiol a datrys anghydfodau gydymffurfio â'r egwyddorion canlynol ynglŷn â chyfrinachedd a phreifatrwydd.
- 126. Dylent llynu wrth safonau cyfrinachedd llym.
- 127. Dylent greu a chynnal gwasanaethau sy'n gwarchod ac yn parchu preifatrwydd defnyddwyr.
- 128. Dylent gyfyngu mynediad at wybodaeth gyfrinachol i bersonau awdurdodedig.

#### **Llywodraethu ac atebolrwydd**

- 129. Dylai pob darparwr gwasanaethau ar-lein a digidol sy'n darparu gwybodaeth gyfreithiol, cyngor cyfreithiol a datrys anghydfodau gydymffurfio â'r egwyddorion canlynol ynglŷn â llywodraethu ac atebolrwydd.
- 130. Dylent gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau cymwys.
- 131. Dylent llynu at godau ymddygiad proffesiynol a chanllawiau moesegol.
- 132. Dylent sicrhau bod arferion yn deg ac yn anwahaniaethol.
- 133. Dylent gynnal archwiliadau rheolaidd o'u gwasanaethau.
- 134. Dylent sefydlu a chynnal system sicrwydd ansawdd, gan gynnwys gwiriadau ac archwiliadau rheolaidd o wasanaethau, a system o gasglu ac ymateb i adborth gan gleientiaid i sicrhau gwelliant parhaus y gwasanaeth.
- 135. Dylent ddangos cynaliadwyedd ariannol gan gynnwys archwiliadau o ran eu sefydlogrwydd ariannol eu hunain a chynaliadwyedd eu gwasanaethau.

- 136. Dylent wneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol yn ôl yr angen.
- 137. Dylent sefydlu a chynnal gweithdrefn gwyno sy'n glir ac yn hygrych.

#### **Atgyfeirio**

- 138. Er mwyn hwyluso natur holistig y System Cyfiawnder Digidol, dylai darparwyr gwasanaethau ar-lein a digidol sy'n darparu gwybodaeth gyfreithiol, cyngor cyfreithiol a datrys anghydfodau wneud darpariaethau ar gyfer atgyfeirio achosion a data yn yr amgylchiadau canlynol.
- 139. Dylent sefydlu, cynnal a chyhoeddi protocolau ar gyfer atgyfeirio achosion at ddarparwyr eraill pan fydd y materion a godir gan ddefnyddiwr y tu hwnt i arbenigedd y darparwr neu lle nad yw'n cyd-fynd â nhw, a sicrhau bod holl ddefnyddwyr eu gwasanaethau yn cael rhybudd o'r protocolau hynny.
- 140. Dylent sefydlu, cynnal a chyhoeddi protocolau ar gyfer derbyn achosion a atgyfeiriwyd gan ddarparwyr eraill a sicrhau bod holl ddefnyddwyr eu gwasanaethau yn cael rhybudd o'r protocolau hynny.
- 141. Dylent sefydlu a chynnal system ar gyfer trosglwyddo data i achosion datrys anghydfodau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar-lein os gofynnir amdanynt neu os gorchmynnir hynny.

#### **Egwyddorion ar gyfer darparwyr cyngor cyfreithiol yn y System Cyfiawnder Digidol**

- 142. Dylai pob darparwr gwasanaethau ar-lein a digidol yn y System Cyfiawnder Digidol sy'n darparu gwybodaeth gyfreithiol gydymffurfio â'r darpariaethau canlynol.
- 143. Dylai'r holl wybodaeth gyfreithiol a ddarperir fod yn gywir, yn gyfoes a'i hadolygu'n rheolaidd.
- 144. Dylai darparwyr gwybodaeth nodi'n glir unrhyw ymwadiadau ynglŷn â natur gyffredinol y wybodaeth a'r angen am gyngor cyfreithiol penodol.

#### **Egwyddorion ar gyfer darparwyr cyngor cyfreithiol**

- 145. Dylai pob darparwr gwasanaethau ar-lein a digidol sy'n darparu cyngor cyfreithiol gydymffurfio â'r darpariaethau canlynol.

146. Dylent gydymffurfio bob amser â'u rhwymedigaethau a'u rheoliadau proffesiynol cyffredin, gan gynnwys cynnal yswiriant indemniad digonol.
147. Dylent weithredu prosesau sgrinio cyfreithiol cadarn yn ystod pob cam, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i sgrinio ar gyfer:
- diogelu, yn benodol yn ymwneud â honiadau o gam-drin;
  - a oes angen mesurau amddiffynnol brys, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i anghydfodau awdurdodaethol, peidio â datgelu a gwasgaru asedau;
  - gwrthdaro buddiannau, a'r graddau y mae'r rhain yn effeithio ar gyfranogiad yn y model cyn achos.
148. Dylent ddadansoddi'r materion cyfreithiol i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu cyfeirio at yr adnoddau priodol, gan ystyried yr angen a fforddiadwyedd.
149. Dylent hysbysu defnyddwyr ym mhob cam o'r materion cyfreithiol (a materion nad ydynt yn gyfreithiol) yn eu hachos a sut gellir datrys y rhain yn y ffordd fwyaf effeithlon y tu allan i'r llys, gan atgyfeirio defnyddwyr at y cam nesaf mwyaf priodol o ystyried eu sefyllfa, boed hynny'n wybodaeth, cyngor cyfreithiol pellach gan ddarparwr arall neu ddatrys anghydfod.

### **Datrys Anghydfodau**

150. Dylai pob darparwr gwasanaethau ar-lein a digidol sy'n darparu gwasanaethau datrys anghydfodau gydymffurfio â'r darpariaethau canlynol.
151. Dylent gynnal didueddrwydd a niwtraliaeth llym.
152. Dylent sefydlu a chynnal prosesau ar gyfer gwirio gwrthdaro buddiannau.
153. Dylent sicrhau bod defnyddwyr yn cael cyngor llawn ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer datrys anghydfodau.
154. Dylent fod yn arbenigwyr yn y dulliau datrys anghydfodau a ddarperir a'r mathau o anghydfodau y maent yn eu datrys.

155. Dylent osod amserlenni rhesymol ar gyfer pob cam o'r broses datrys anghydfodau gyda phrosesau awtomataidd i ddefnyddwyr dderbyn diweddariadau statws a negeseuon atgoffa.
156. Dylent ddarparu esboniadau clir o weithdrefnau ac amserlenni, gan gynnwys tiwtorialau lle bo'n briodol ar gyfer llywio'r broses.
157. Dylent sicrhau mesurau diogelu i ddefnyddwyr agored i niwed er mwyn atal anghydbwysedd pŵer.

#### **Adran 4: Safonau Technegol a Data ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein cyn achos**

158. Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau cyn achos fodloni ystod o safonau technegol a data gan sicrhau'r canlyniadau gorau posib, diogelwch ac ymddiriedaeth defnyddwyr, a throsglwyddo data a phobl yn ddidrafferth drwy'r System Cyfiawnder Digidol.
159. Dylai darparwyr gwasanaethau cyfreithiol yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector wneud y canlynol:
  - Dylunio systemau ar gyfer eu defnyddwyr
  - Gweithredu platfformau diogel y gellir ymddiried ynddynt
  - Rhannu data yn ddiogel ac yn gyson ar draws yr ecosystem
  - Defnyddio technoleg, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (GenAI), mewn ffyrdd tryloyw ac atebol
  - Cefnogi mynediad, rheolaeth a chlodadwyedd o ran data defnyddwyr
160. Bydd yr OPRC yn mynnu nifer o safonau ar gyfer darparwyr, ynghyd â chanllawiau, rheolau neu brotocolau newydd neu gyfredol.
161. Gall nifer o'r canllawiau cyfredol fod yn gwbl neu'n rhannol berthnasol i ddarparwyr y sector preifat, gan osgoi'r angen am safonau newydd neu wrthgyferbyniol. Er enghraifft, mae Safon Gwasanaeth y GDS yn berthnasol i systemau sy'n eiddo i'r llywodraeth, ond mae nifer o'i chanllawiau yn werthfawr i ddarparwyr y sector preifat. Gallai'r OPRC nodi pa ddarpariaethau fydd yn berthnasol neu addasu'r canllawiau cyfredol i'w safonau ei hun.
162. Bydd gan ddarparwyr rywfaint o hyblygrwydd o ran sut maent yn defnyddio'r safonau yng nghyd-destun eu gwasanaethau ac



anghenion eu defnyddwyr, gyda gofynion craidd, cyfreithiol neu sylfaenol i'w bodloni ym mhob agwedd berthnasol. Bydd gan ddarparwyr gwybodaeth faich is na'r rhai sy'n rheoli achosion a thystiolaeth o'r dechrau i'r diwedd.

163. Dylai darparwyr ddangos eu bod yn **cydymffurfio** â'r holl gyfreithiau, rheoliadau ac arfer da yn y diwydiant sy'n berthnasol, ac unrhyw safonau technegol penodol i'r maes a allai fod yn ofynnol neu'n cael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.

164. Gall safonau technegol a data'r OPRC gynnwys y safonau canlynol, y dylai darparwyr fabwysiadu:

165. **Dylunio systemau ar gyfer eu defnyddwyr:**

Gwneud systemau'n syml i'w defnyddio ([Safon Gwasanaeth y Llywodraeth 4](#)).

- (1) Gwneud yn siŵr y gall pawb ddefnyddio'r gwasanaeth ([Safon Gwasanaeth y Llywodraeth 5](#) a **Fframwaith Cynhwysiant yr OPRC**).
- (2) Sicrhau y gall pob parti perthnasol ddefnyddio'r system (gan gynnwys hawlyddion, ymatebwyr, cynrychiolwyr cyfreithiol a chynrychiolwyr lleyg).

166. **Gweithredu platfformau diogel y gellir ymddiried ynddynt:**

- (1) Sicrhau cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd data defnyddwyr (gweler [Safon Gwasanaeth y Llywodraeth 9](#)).
- (2) Dilyn arferion diogelwch modern (e.e. amgryptio, dilysu aml-ffactor, Dim Ymddiriedaeth) (gweler [Canlyniadau Diogelwch ICO](#), [Egwyddorion Cwmwl y CSC](#)).
- (3) Dylunio systemau i fod yn wydn ac yn ddibynadwy o dan lwyth (gweler [Safon Gwasanaeth y Llywodraeth 14](#)).
- (4) Sicrhau proses ddiogel o adnabod, dilysu ac awdurdodi defnyddwyr (gweler [profi a dilysu hunaniaeth](#), [NIST SP 80-63](#)).
- (5) Sicrhau cyfathrebu diogel gydag unrhyw systemau allanol (gweler [egwyddorion cyfathrebu diogel y NCSC](#)).

167. **Rhannu data yn ddiogel ac yn gyson ar draws yr ecosystem:**

- 1) Hwyluso'r gallu i ryngweithredu a **chyfnewid data** sy'n dod i mewn/allan gyda darparwyr eraill yn y System Cyfiawnder Digidol, fel defnyddio API (gweler [canllawiau GDS API](#)).
- 2) Mabwysiadu **modelau data cyffredin**, sgemâu ac ontolegau i sicrhau dehongliad cyson rhwng systemau a darparwyr. Wedi'i gysylltu ochr yn ochr â'r ddogfen hon ceir enghraifft ar gyfer Gwasanaeth GLITEM: Gwasanaeth Lanlwytho Swmp Sifil (CBUS) Diffiniad Rhyngwyneb Cwsmeriaid CNBC f6.1.
- 3) Sicrhau bod prosesau ar-lein wedi'u hintegreiddio ac yn gydnaws â gweithdrefnau datrys anghydfodau'r llys a'r tribiwnlysoedd ar-lein ac elfennau ar-lein eraill y System Cyfiawnder Digidol.
- 4) Cynnal **llwybrau archwilio** ar gyfer tryloywder, archwiliadwyedd a tharddiad data a phenderfyniadau.
- 5) Cyhoeddi **metadata** y gellir ei ddarllen gan beiriant am eu gwasanaethau (fel awdurdodaeth, cwmpas, cymhwysedd, oriau agor a gwybodaeth gyswllt).
- 6) Cyhoeddi data cryno, dienw i werthuso canlyniadau defnyddwyr, sicrhau gweithrediad, cydymffurfiaeth a thryloywder ([Safon Gwasanaeth y Llywodraeth 10](#)) ac i gefnogi archwiliad annibynnol o'u gwasanaethau.

168. **Defnyddio technoleg, gan gynnwys deallusrwydd artifisial cynhyrchiol mewn ffyrdd diogel, tryloyw ac atebol**

- (1) Sicrhau defnydd cyfrifol o AI a thechnolegau eraill, gan ganolbwyntio ar degwch, atebolrwydd a thryloywder, o hyfforddiant i ddefnydd, hyd at ddulliau dylunio, llywodraethu, adolygu a thechnegol. (Gweler [Llawlyfr AI y Llywodraeth](#), [canllawiau Sefydliad Alan Turing ar systemau AI](#), a [chanllawiau'r ICO](#)).
- (2) Sicrhau bod penderfyniadau sydd â goblygiadau cyfreithiol bob amser yn cynnwys **goruchwyliaeth ddynol**, a'r opsiwn am **adolygiad dynol**.
- (3) Monitro a gwerthuso'r defnydd o dechnoleg i sicrhau ei fod yn gweithredu fel y bwriadwyd.
- (4) Cyhoeddi gwybodaeth am sut caiff AI ei ddefnyddio a'i brofi.

169. **Cefnogi mynediad, rheolaeth a chludadwyedd data defnyddwyr**

- (1) Dim ond y data sydd ei angen ar gyfer gwasanaeth y dylid ei gasglu a'i storio (gweler [Deddf Diogelu Data](#) (DPA) a'r [Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig](#) (PECR)).
- (2) Dylai defnyddwyr allu cael mynediad at eu data, ei allgludo a'i reoli.

170. Mae'r OPRC yn croesawu mewnbwn ar sut gellid datblygu'r safonau hyn fwyaf effeithiol i gyflawni eu hamcanion a sut gellir eu hasesu, eu monitro neu eu gorfodi.

**Cwestiwn 5:** *A yw Model Cyn Achos yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddorion a'r safonau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo defnydd ehangach o brosesau digidol effeithlon, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, i nodi problemau cyfreithiol, darparu cyngor cyfreithiol, a datrys anghydfodau'n brydlon? Os na, pam ddim, a pha egwyddorion a safonau y dylai'r Model Cyn Achos eu cynnwys i gyflawni hyn?*

**Cwestiwn 6:** *Beth yw'r ffordd orau o gyflawni monitro a chydymffurfiaeth â'r safonau ym Model Cyn Achos drafft yr OPRC a pha ddata fyddai ei angen i gyflawni hyn yn effeithiol? A yw'n gofyn am achrediad neu werthusiad gan gorff, ac os felly, pa fframwaith fyddai'n gweithio orau?*

**Cwestiwn 7:** *A yw Model Cyn Achos drafft yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddorion a'r safonau sy'n angenrheidiol i wella mynediad y cyhoedd at yr ystod eang o wasanaethau cyfreithiol sydd ar gael ar-lein? Os na, pam ddim, a pha egwyddorion a safonau y dylai'r Model Cyn Achos eu cynnwys i gyflawni hyn?*

**Cwestiwn 8:** A yw Model Cyn Achos drafft yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddorion a'r safonau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo defnydd mwy effeithlon o adnoddau cyfyngedig y llys drwy sicrhau y caiff anghydfodau eu datrys yn gynharach cyn achos heb ymyrraeth y llys? Os na, pam ddim, a pha egwyddorion a safonau y dylai'r Model Cyn Achos eu cynnwys i gyflawni hyn?

**Cwestiwn 9:** A yw Model Cyn Achos drafft yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddorion a'r safonau sy'n angenrheidiol i hwyluso proses drosglwyddo data ddi-drafferth rhwng darparwyr cyhoeddus a phreifat cyn achos, a, lle bo angen, o'r darparwyr hynny i systemau datrys anghydfodau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar-lein? Os na, pam ddim, a pha egwyddorion a safonau y dylai'r Model Cyn-Achos eu cynnwys i gyflawni hyn?

**Cwestiwn 10:** A yw Model Cyn Achos drafft yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir y dulliau o ddatblygu, asesu, monitro a/neu orfodi safonau technegol a data priodol ar gyfer y System Cyfiawnder Digidol? Os na, pam ddim, a pha ddulliau y dylai'r Model Cyn Achos eu cynnwys i gyflawni hyn?

# Rhan D: Ymateb i'r Ddogfen Ymgysylltu â'r Cyhoedd

## Adran 1: Ymgysylltu mor eang â phosib

171. Dymuna'r OPRC dderbyn ymatebion wrth ystod eang o randdeiliaid sy'n adlewyrchu ystod mor eang o safbwyntiau â phosib, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd, Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar, CILEX, cymdeithasau cyfreithiol arbenigol, defnyddwyr llysoedd a grwpiau defnyddwyr, grwpiau hawliau defnyddwyr, academyddion ac ymchwilyr, rheoleiddwyr gan gynnwys yr SRA, BSB a CMA, darparwyr gwasanaethau cyfredol a sefydliadau sy'n ystyried darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

## Adran 2: Gwybodaeth Ymarferol a Chamau Nesaf

172. Dylid anfon ffurflenni ymateb gorffenedig at [OPRCConsultations@justice.gov.uk](mailto:OPRCConsultations@justice.gov.uk) erbyn 5pm ddydd Gwener 19 Medi 2025. Gellir dod o hyd i'r ffurflen ymateb ar [we-dudalen](#) yr OPRC.
173. Ar 16 Gorffennaf 2025, bydd yr OPRC yn cynnal Digwyddiad Ymgysylltu â'r Cyhoedd, a drefnwyd gan Gymdeithas y Gyfraith i hwyluso'r drafodaeth gychwynnol ar y materion a godwyd yn y ddogfen hon.
174. Ar 20 Hydref 2025, bydd yr OPRC yn cynnal ei gyfarfod agored/cyhoeddus cyntaf lle bydd yr ymatebion i'r ddogfen hon yn cael eu trafod.
175. Bydd manylion ynglŷn â sut i ymuno â'r cyfarfod hwn ar gael ar [we-dudalen](#) yr OPRC cyn bo hir.
176. Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd o'r ymarfer ymgysylltu hwn ar [we-dudalen](#) yr OPRC cyn y cyfarfod.
177. Bydd yr OPRC yn amlinellu ei ymateb a'i gamau nesaf ddechrau 2026.

## Adran 3: Crynodeb o'r Cwestiynau a Ofynnwyd yn y Ddogfen Ymgysylltu â'r Cyhoedd

### Cynhwysiant

**Cwestiwn 1:** *Ai dyma'r dibenion cywir ar gyfer Fframwaith Cynhwysiant yr OPRC? Os na, pam ddim, a pha ddibenion eraill ddylai'r Fframwaith eu cael?*

**Cwestiwn 2:** *Ai dyma'r nodau cywir ar gyfer Fframwaith Cynhwysiant yr OPRC? Os na, pam ddim, a pha nodau eraill ddylai'r Fframwaith eu cael?*

**Cwestiwn 3:** *A yw Fframwaith Cynhwysiant drafft yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddorion, y safonau a'r mecanweithiau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod cynhwysiant digidol wedi'i wreiddio o'r cychwyn cyntaf yng ngwaith yr OPRC? Os na, pam ddim, a pha egwyddorion, safonau a mecanweithiau eraill y dylai'r Fframwaith eu cynnwys?*

### Model Cyn Achos

**Cwestiwn 4:** *Ai dyma'r dibenion, y cwmpas a'r nodau cywir ar gyfer Model Cyn Achos yr OPRC? Os na, pam ddim, a pha ddibenion, cwmpas a nodau eraill ddylai'r Model Cyn Achos eu cael?*

**Cwestiwn 5:** *A yw Model Cyn Achos yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddorion a'r safonau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo defnydd ehangach o brosesau digidol effeithlon, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, i nodi problemau cyfreithiol, darparu cyngor cyfreithiol, a datrys anghydfodau'n brydlon? Os na, pam ddim, a pha egwyddorion a safonau y dylai'r Model Cyn Achos eu cynnwys i gyflawni hyn?*

**Cwestiwn 6:** *Beth yw'r ffordd orau o gyflawni monitro a chydymffurfiaeth â'r safonau ym Model Cyn Achos drafft yr OPRC a pha ddata fyddai ei angen i gyflawni hyn yn effeithiol? A yw'n gofyn am achrediad neu werthusiad gan gorff, ac os felly, pa fframwaith fyddai'n gweithio orau?*

**Cwestiwn 7:** *A yw Model Cyn Achos drafft yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddorion a'r safonau sy'n angenrheidiol i wella mynediad y cyhoedd at yr ystod eang o wasanaethau cyfreithiol sydd ar gael ar-lein? Os na, pam ddim, a pha egwyddorion a safonau y dylai'r Model Cyn Achos eu cynnwys i gyflawni hyn?*

**Cwestiwn 8:** *A yw Model Cyn Achos drafft yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddorion a'r safonau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo defnydd mwy effeithlon o adnoddau cyfyngedig y llys drwy sicrhau y caiff anghydfodau eu datrys yn gynharach cyn achos heb ymyrraeth y llys? Os na, pam ddim, a pha egwyddorion a safonau y dylai'r Model Cyn Achos eu cynnwys i gyflawni hyn?*

## Model Cyn Achos (Parhad)

**Cwestiwn 9:** *A yw Model Cyn Achos drafft yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddorion a'r safonau sy'n angenrheidiol i hwyluso proses drosglwyddo data ddi-drafferth rhwng darparwyr cyhoeddus a phreifat cyn achos, a, lle bo angen, o'r darparwyr hynny i systemau datrys anghydfodau'r llysoedd a'r tribiwnlys ar-lein? Os na, pam ddim, a pha egwyddorion a safonau y dylai'r Model Cyn-Achos eu cynnwys i gyflawni hyn?*

**Cwestiwn 10:** *A yw Model Cyn Achos drafft yr OPRC yn adlewyrchu'n gywir y dulliau o ddatblygu, asesu, monitro a/neu orfodi safonau technegol a data priodol ar gyfer y System Cyfiawnder Digidol? Os na, pam ddim, a pha ddulliau y dylai'r Model Cyn Achos eu cynnwys i gyflawni hyn?*

**Gorffennaf 2025**